# Treuliau

28 Chwefror 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 31 Ionawr 2013, pan wnaethoch ofyn,

*A allwch ddarparu'r dogfennau gwreiddiol yn profi bod treuliau Julie Morgan ar gyfer 2011/12 (rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth) o ran yswiriant cynnwys swyddfa, trosglwyddo carped a dodrefn a chynnal a chadw'r swyddfa yn gysylltiedig â'i swyddfa etholaeth ddatganedig yn yr Eglwys Newydd?*

Mae copïau o'r dogfennau ar gael ar gais.

Byddwch yn sylwi bod ychydig o'r wybodaeth wedi cael ei hepgor. Cafodd y wybodaeth hon ei hepgor am y rhesymau a ganlyn:

1. Roeddem yn ystyried bod y wybodaeth hon yn bersonol ei natur.
2. Ni wnaethpwyd cais am y wybodaeth benodol hon.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403/8582
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

> Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
> Wycliffe House
> Water Lane
> Wilmslow
> Cheshire
> SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**